# Datganiad Ysgol
# Y Grant Datblygu Disgyblion

Mae'r datganiad hwn yn rhoi manylion ynghylch defnydd ein hysgol o'r GDD ar gyfer blwyddyn academaidd 2025 i 2026.

Mae'n amlinellu ein strategaeth, sut rydym yn bwriadu gwario'r cyllid yn y flwyddyn academaidd hon a'r effaith a gafodd gwariant y llynedd o fewn ein hysgol.

Os yw'ch rhifau yn 5 neu lai, defnyddiwch * yn lle'r dyraniad er mwyn diogelu plant rhag cael eu hadnabod.

**Trosolwg Ysgolion**

| Manylion | Data |
|---|---|
| Enw'r ysgol | Ysgol Bro Elwern |
| Nifer y Disgyblion yn yr Ysgol | 58 |
| Cyfran (%) o ddisgyblion sy'n gymwys i'r GDD | * |
| Dyddiad cyhoeddi'r datganiad hwn | 28/11/2025 |
| Dyddiad y caiff ei adolygu | 28/11/2026 |
| Awdurdodwyd y datganiad gan | Hywel Roberts |
| Yn arwain ar y GDD | Catrin Phillips |
| Llywodraethwr sy'n arwain | Carys Powell- Davies |

## Trosolwg Cyllid

| Manylion | Swm |
|---|---|
| Dyraniad cyllid GDD y flwyddyn academaidd hon | * |
| | |
| | |
| **Cyfanswm cyllideb y flwyddyn academaidd hon** | * |

## Rhan A: Cynllun Strategaeth

### Datganiad o fwriad

*Mae'n bwysig iawn i ni yn Ysgol Bro Elwern bod pob disgybl yn cael y cychwyn gorau posib i'w taith addysgol. Rydym yn ymdrechu i gynnig llu o brofiadau i'w trysori, a chyfleoedd di-ri i bob dysgwr fwynhau wrth ddysgu. Rydym yn ceisio cynnig amrywiaeth eang o gyfleoedd sydd yn sbarduno diddordeb ein dysgwyr. Mae blaenoriaethu cyfleoedd cyfartal i bawb, cefnogi lles a datblygu meddylfryd bositif, gan barhau i adeiladu cyswllt yr ysgol a'r gymuned yn hanfodol bwysig i ni. Mi fyddwn ni'n cefnogi lles ein disgyblion, medrau llythrennedd a rhifedd ein dysgwyr yn bennaf.*

### Canlyniadau a fwriedir

Mae hyn yn esbonio'r canlyniadau rydym yn anelu atynt **erbyn diwedd ein cynllun strategaeth presennol**, a sut y byddwn yn mesur a ydynt wedi'u cyflawni.

| Canlyniad a fwriedir | Meini prawf llwyddiant |
|---|---|
| Athrawes i gynnal sesiynau cefnogi dysgwyr drwy weithio gyda grwpiau o ddysgwyr ar draws yr ysgol. Mi fydd y gefnogaeth yn cael ei dargedu i gefnogi cynnydd pob unigolyn/ grwp drwy gynnig cefnogaeth llythrennedd, rhifedd a/neu lles yn bennaf. | • Rydym yn cynnal adolygiad cynnydd disgyblion bob tymor, sydd yn adlewyrchu cynnydd disgyblion o'r gwaelodlin.<br>• Mae prosesau asesu yr ysgol yn adlewyrchu effaith gadarnhaol<br>• Mae'r ysgol yn ymateb i anghenion lles disgyblion unigol drwy gymorth sydd wedi'u targedu. |
| Cymhorthydd i gynnal sesiynau ysgol y goedwig. | Mae holl ddisgyblion yr ysgol yn elwa o sesiwn Ysgol y Goedwig yn wythnosol. |

### Gweithgarwch yn y flwyddyn academaidd hon

Mae hyn yn rhoi manylion sut rydym yn bwriadu gwario ein GDD **y flwyddyn academaidd hon** i gyflawni y canlyniadau a fwriedir a restrir uchod.

| |
|---|
| Mae'r ysgol yn bwriadu cynnig hyfforddiant dysgu trwy'r tymhorau i aelod o staff er mwyn cefnogi lles ein dysgwyr ymhellach. |

### Dysgu ac addysgu

| Gweithgaredd | Tystiolaeth sy'n cefnogi'r dull hwn |
|---|---|
| *Parhau i ddatblygu lles ein dysgwyr a chymuned yr ysgol* | Meithrin partneriaeth cryf gyda ein teuluoedd<br>Ymateb i anghenion ein cymuned<br>Cydweithio'n effeithiol â gwasanaethau arbenigol |

| | |
|---|---|
| | Ymgysylltiad Rhieni<br><br>Effaith gymedrol am gost isel iawn yn seiliedig ar dystiolaeth helaeth.<br><br>Effaith gymedrol am gost isel iawn yn seiliedig ar dystiolaeth helaeth -+4 mis. |

## Rhan B: Adolygiad o ganlyniadau'r flwyddyn academaidd flaenorol

### Canlyniadau'r GDD

Mae hyn yn rhoi manylion yr effaith a gafodd ein gweithgarwch GDD ar ddisgyblion ym mlwyddyn academaidd 2025 i 2026.

| Gweithgarwch | Effaith |
|---|---|
| Hyfforddiant Ysgol y goedwig | • Mae un aelod o staff wedi cwblhau hyfforddiant ysgol goedwig Lefel 3 yn 2024-25 i sicrhau bod pob disgybl yn yr ysgol yn elwa o sesiynau ysgol goedwig wythnosol.<br><br>• Dysgu awyr agored - ystod eang o ganlyniadau cadarnhaol i blant.<br><br>• Mae canfyddiadau allweddol, o  amrywiaeth o astudiaethau, gan gynnwys Prifysgol Harvard, yn cynnwys gwell swyddogaeth weithredol, gwell iechyd meddwl, drwy gysylltiad â natur a'r amgylchedd, gwell canlyniadau dysgu, newidiadau ymddygiad cadarnhaol. |
| Athrawes cefnogi | Mae Ymchwil yn dangos: Effaith gymedrol am gost isel yn seiliedig ar dystiolaeth gymedrol (+4 mis).<br>EEF: Mae astudiaethau yn Lloegr wedi dangos bod disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim fel arfer yn derbyn buddion ychwanegol o hyfforddiant mewn grwpiau bach. |

### Rhaglenni a ddarperir yn allanol

Dylech gynnwys enwau unrhyw raglenni a brynwyd gennych yn ystod y flwyddyn academaidd flaenorol. Bydd hyn yn ein helpu i ganfod pa rai sy'n boblogaidd yng Nghymru.

| Rhaglen | Darparwr |
|---|---|
| Jig-saw | |
| White rose maths | |
| Tyfu trwy'r tymhorau | |

Defnyddiwyd y Grant GDD er mwyn trefnu hyfforddiant staff ysgol gyfan i gefnogi lles ein dysgwyr. Cafodd y grant ei ddefnyddio yn ogystal, er mwyn cyflogi athrawes i  dargedu, a chefnogi unigolion gan ymateb i anghenion ein dysgwyr. Bu rhai o ddisgyblion yr ysgol yn derbyn cefnogaeth lles, rhai yn derbyn cefnogaeth llythrennedd ac eraill yn derbyn cefnogaeth rhifedd.

. Rhoddion i'r banc bwyd lleol

• Ailgylchu gwisg ysgol

• Mae Cymdeithas Rhieni ac Athrawon yr ysgol yn gefnogol dros ben, ac yn rhoi cyfraniad tuag at nifer o weithgareddau er mwyn i'r ysgol leihau effaith tlodi trwy roi cymhorthdal at weithgareddau allgyrsiol.